



TENDR

Trosolwg

Dodrefn caffi allanol cyfoes o ansawdd uchel sy'n cynnwys cadeiriau a byrddau cyfatebol, sy'n addas i'w gosod mewn man awyr agored sydd ar gael i'r cyhoedd ac wedi'u bwriadu i aros yn yr awyr agored drwy gydol y flwyddyn. Dylai'r dodrefn aros yn annibynnol ac yn symudol.

Dylai'r dodrefn fod o adeiladwaith cadarn, yn addas ar gyfer defnydd cyhoeddus rheolaidd, symudiad dro ar ôl tro ac amlygiad allanol parhaol. Dylai'r dodrefn ddarparu estheteg bensaernïol gydlynol a chymedrol.

Cadeiriau - 20 (nifer)

Deunydd ffrâm: Alwminiwm, wedi'i orchuddio â phowdr (lliw i'w gadarnhau)

Deunydd slatiau: derw neu alwminiwm ardystiedig gan FSC

Deunyddiau yn gyffredinol: addas ar gyfer amlygiad allanol parhaol, gan gynnwys gwlychu a sychu dro ar ôl tro, amrywiad tymheredd tymhorol a'r dwyster disgwylidig o ddefnydd cyhoeddus.

Corffwysfeydd breichiau: nid oes angen

Corffwysfeydd cefn: ei angen

Storio: I fod yn addas ar gyfer pentyrru, a chynnwys troli pentyrru ar gyfer storio

Sefydlogrwydd: sefydlog yn ystod defnydd arferol ac ni ddylai gyflwyno risgiau annerbyniol o dipio, siglo neu droi drosodd pan gaiff ei osod ar balmant bloc concrit (presennol)

Gwarant: 15 mlynedd

Rhannau sbâr: rhaid i gydrannau newydd fod ar gael gan y gwneuthurwr neu ei rwydwaith cyflenwi awdurdodedig i hwyluso atgyweirio ac ymestyn oes gwasanaeth defnyddiol y dodrefn.

Byrddau - 5 (nifer)

Deunydd ffrâm: Dur galfanedig, wedi'i orchuddio â phowdr (lliw i'w gadarnhau)

Deunydd slatiau: derw neu ddur ardystiedig gan FSC

Deunyddiau yn gyffredinol: addas ar gyfer amlygiad allanol parhaol, gan gynnwys gwlychu a sychu dro ar ôl tro, amrywiad tymheredd tymhorol a'r dwyster disgwylidig o ddefnydd cyhoeddus.

Siâp: crwn

Capasiti: eistedd hyd at 5 cadair

Storio: Plygadwy neu bentyrru

Sefydlogrwydd: sefydlog yn ystod defnydd arferol ac ni ddylai gyflwyno risgiau annerbyniol o dipio, siglo neu droi drosodd pan gaiff ei osod ar balmant bloc concrit (presennol)

Gwarant: 15 mlynedd

Rhannau sbâr: rhaid i gydrannau newydd fod ar gael gan y gwneuthurwr neu ei rwydwaith cyflenwi awdurdodedig i hwyluso atgyweirio ac ymestyn oes gwasanaeth defnyddiol y dodrefn.

Danfon

Mae angen gwarantu bod y nwyddau yn cael eu danfon erbyn 8 Ionawr 2027 fan bellaf i ardal cod post LL24 (Betws y Coed, Gwynedd).

Gwerthuso Tendrau

Pris: 60%

Ansawdd: 40%

Bydd yr Asesiad Ansawdd yn seiliedig ar gyfuniad o ansawdd dylunio a gwybodaeth a gyflenwir ar y canlynol:

1. Cadarnhad o'r deunyddiau y mae'r byrddau a'r cadeiriau wedi'u gwneud ohonynt.
2. Disgrifiad / cadarnhad o sefydlogrwydd gan gynnwys pwysau.
3. Disgrifiad o addasrwydd ar gyfer amlygiad parhaol yn yr awyr agored.
4. Cadarnhad a oes cydrannau newydd ar gael gan y gwneuthurwr neu a ellir gwneud atgyweiriadau awdurdodedig gan y gwneuthurwr ar y cynhyrchion.
5. Cadarnhad o gyfnod y warrant ac os yw'r holl cydrannau wedi'u cynnwys.
6. Cadarnhad gellir danfon y nwyddau erby 08/01/2027.

Darparwch lyfrynnau / ffotograffau o'r nwyddau arfaethedig gan gynnwys cadarnhad o'r lliwiau sydd ar gael.

Gellir cynnig sawl opsiwn gwahanol (os ydynt ar gael).

Gwerth y Tendr

£12,500 heb TAW (amcangyfrifedig).

Fodd bynnag, nodwch, dim ond ffigur dangosol yw'r ffigur hwn ac ni ddylid ei gymryd fel pris pendant na disgwylid. Disgwylir i gyflenwyr gyflwyno prisiau sy'n adlewyrchu eu hasesiad eu hunain o'r cynhyrchion a gynigir a fyddai'n gweddu orau i'r briff a'r hyn y maent yn ei ystyried yn deg ac yn briodol, waeth beth fo'r ffigur ar yr Hysbysiad.

Cymhwysedd

Rhaid i gyflenwyr sy'n dymuno cymryd rhan yn y broses gaffael hon fod wedi cofrestru ar blatfform digidol canolog *UK Find a Tender Service* (FTS). Mae cofrestru yn gofyn am greu *GOV.UK One Login* a chwblhau manylion sefydliadol, gan gynnwys gwybodaeth am y cwmni, manylion cyswllt, a datganiadau safonol cyflenwyr. Anogir cyflenwyr i sicrhau bod eu proffil wedi'i gwblhau'n llawn ac yn gyfredol, gan y gellir defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi cyflwyniadau tendr a lleihau'r angen i fewnbynnu data dro ar ôl tro.

Fideo Byr ar sut i Gofrestru ar FTS (Saesneg)

I gyflwyno tendr ar gyfer yr Hysbysiad hwn bydd angen i chi ddarparu:

Cadarnhad o'ch **math o Rif Adnabod ynghyd a'ch Rhif Adnabod Unigryw**. (Mae'r rhif adnabod unigryw yn gyfeirnod parhaol sy'n adnabod eich sefydliad, fel rhif cofrestru Tŷ'r Cwmnïau, rhif TAW ac ati, neu'r Rhif Sefydliad Caffael a neilltuwyd i chi wrth gofrestru os nad oes gennych yr un o'r rhain. Defnyddir y wybodaeth hon i gadarnhau eich hunaniaeth gyfreithiol ac mae'n parhau'n gyson ar draws yr holl brosesau caffael.)

Cyflwyno Tendrau

Gyrrwch eich tendr at cyflwyniadau@eryri.llyw.cymru **erbyn hanner dydd, dydd Llun, 9 Tachwedd 2026 os gwelwch yn dda.**

Nodwch os gwelwch yn dda, mae'r blwch e-bost cyflwyniadau@eryri.llyw.cymru yn benodol ar gyfer agor tendrau ar ôl y terfyn amser. Nid yw'r blwch yn cael ei fonitro tu allan i'r amseroedd hyn ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer ymholiadau cyffredinol.

Cyflwynwch unrhyw gwestiynau drwy gyfleuster Cwestiwn ac Ateb GwerthwchiGymru (Sell2Wales) ar yr hysbysiad hwn.

Sylwch na ellir trefnu cyfarfodydd unigol a/neu alwadau i drafod yr Hysbysiad hwn.